OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1218 (Cy.103)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Mai 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mehefin 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 69(3) a (4) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**), fel y'u cymhwysir mewn perthynas ag ysgolion annibynnol gan adran 124B(1)(**2**) o'r Ddeddf honno, ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**3**).

Wrth wneud y Gorchymyn hwn mae Gweinidogion Cymru wedi dilyn y weithdrefn a bennwyd yn Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cymeriad Crefyddol Ysgolion) (Gweithdrefn Ddynodi) (Cymru) 2003(**4**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2009, a daw i rym ar 1 Mehefin 2009.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y grefydd berthnasol neu'r enwad crefyddol perthnasol" ("*the relevant religion or religious denomination*") yw'r grefydd neu'r enwad crefyddol y caiff addysg yn yr ysgol ei darparu neu'r ysgol ei rheoli yn unol â'i daliadau neu â'i ddaliadau (neu, yn ôl y digwydd, pob enwad crefyddol o'r fath).

(**1**) 1998 p.31. Diwygiwyd adran 69(1) gan baragraff 104(1) a (2) o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Diwygiwyd adran 69(2) gan baragraff 104(1) a (3) o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002.

(**2**) Mewnosodwyd adran 124B gan Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyflogi Athrawon mewn Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol) 2003 (O.S. 2003/2037).

(**3**) Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**4**) O.S. 2003/3233.

**Dynodi ysgolion**

**3.**—(1) Dynodir yr Ysgolion a restrir yng ngholofn (1) yn yr Atodlen yn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Mewn perthynas ag ysgol a restrir yng ngholofn (1) yn yr Atodlen, pennir yng ngholofn (2) y grefydd berthnasol neu'r enwad crefyddol perthnasol i'r ysgol honno.

*Jane E. Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

8 Mai 2009

## YR ATODLEN

Erthygl 3

Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol

| *(1)*<br>*Enw a Chod Post yr Ysgol* | *(2)*<br>*Y Grefydd Berthnasol neu'r Enwad Crefyddol Perthnasol* |
|---|---|
| **Bangor** | |
| Ysgol Hillgrove, LL57 2TW | Cristnogaeth |
| St Gerards, LL57 2EL | Cristnogaeth |
| **Aberhonddu** | |
| Coleg Crist, LD3 8AF | Cristnogaeth |
| **Caerffili** | |
| Ysgol Wycliff, CF83 8PU | Cristnogaeth |
| **Caerdydd** | |
| Coleg St John's, CF3 5YX | Catholigiaeth Rufeinig |
| Ysgol y Gadeirlan, CF5 2YH | Cristnogaeth |
| **Aberteifi** | |
| Ysgol Gristnogol Aberteifi, SA43 1HU | Cristnogaeth |
| **Cross Keys** | |
| Ysgol Gristnogol Emmanuel, NP11 5AJ | Cristnogaeth |
| **Bae Colwyn** | |
| Ysgol Rydal Penrhos, LL29 7BT | Cristnogaeth |
| **Llandudno** | |
| Coleg Dewi Sant, LL30 1RD | Cydenwadaeth |
| **Trefynwy** | |
| Ysgol Agincourt, NP25 3SY | Cristnogaeth |
| Ysgol Trefynwy i Fechgyn, NP25 3XP | Cristnogaeth |
| Ysgol Trefynwy i Ferched, NP25 5XT | Cristnogaeth |
| **Porth-cawl** | |
| Ysgol Gwfaint St Clare's, CF36 5NR | Catholigiaeth Rufeinig |
| **Powys** | |
| Ysgol Ridgeway, SY16 4EW | Cristnogaeth |
| **Abertawe** | |
| Ymddiriedolaeth Addysg Keystone, SA5 4DH | Cristnogaeth |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r ysgolion annibynnol a enwir yn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol.

O dan adran 124A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, caniateir i ysgolion annibynnol sydd wedi eu dynodi felly roi sylw i ystyriaethau crefyddol penodol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogaeth benodedig mewn perthynas â staff sy'n addysgu.

Nid yw dynodiad gan y Gorchymyn hwn yn fodd ynddo'i hun i ennill cymeriad crefyddol neu newid cymeriad crefyddol. Yr hyn a wnaiff dynodiad yw cydnabod nodweddion presennol penodol yr ysgol neu ei chorff llywodraethu fel y'u disgrifir yn Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cymeriad Crefyddol Ysgolion) (Cymru) 2003.